



Dyfodol Byd-eang GwE

ITM / Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol
Sector Uwchradd



RHIFYN 2: Tachwedd-Rhagfyr 2021

RHY DDA I'W GOLLI!



Mae ANG ITM mewn ysgolion uwchradd bellach yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau, cael cymorth a datblygu arferion.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru.
Cyfarfod nesaf: 18/11/21 3.45pm



Yn dilyn eich ymateb i'r arolwg ynghylch ein cyfarfodydd, pleser yw cadarnhau y byddwn yn parhau i gynnal y cyfarfodydd.

Gall fformat neu ffocws bob cyfarfod amrywio.

Mae sesiynau ar y gweill gydag arbenigwyr megis Rachel Hawkes a Gillian Campbell-Thow i weithio ar ddatblygiadau ar gyfer ITM a'r CiG. Hoffem i'r sesiynau hyn ac/neu sesiynau dilynol ddigwydd dros amser drwy gydol y flwyddyn, hyd at yr haf 2022 (dyddiadau i ddilyn).

Gallwn hefyd hwyluso cyfarfodydd i ysgolion a hoffai ganolbwyntio ar y cynnig i gyfnod allweddol 4 neu gyfnod allweddol 5, neu i ysgolion cyfrwng Cymraeg gydweithio os a phan fydd angen.

Yn y lle cyntaf, cynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd ar ôl ysgol gan yr ymddengys mai dyma'r adeg fwyaf cyfleus i ysgolion ar hyn o bryd, ond byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd ac yn ôl pa bryd y mae aelodau a siaradwyr ar gael.

Pan fo'n bosib, byddwn yn ceisio recordio prif rannau'r cyfarfodydd/gweminarau fel y gall athrawon nad ydynt yn gallu mynychu ddal i fyny neu wyllo eto cyn y sesiwn nesaf.

Bydd y prif gyflwyniadau, PowerPoints a recordiadau yn cael eu postio ar dudalennau ITM Canolfan Cefnogaeth GwE. Rhennir cofnodion manwl a dolenni i recordiadau hefyd ar e-bost â'r athrawon sydd ar ein rhestr bostio. Os ydych chi wedi methu rhai, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Felly, yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf, byddwn yn cyflwyno cynnig cyfoethog, perthnasol ac er effaith, ond sydd hefyd yn hyblyg i ysgolion ac athrawon.

Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol.

Peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni unrhyw bryd am ragor o wybodaeth neu gymorth.

Gwybodaeth bellach am ein siaradwyr gwadd:

Mae Gillian Campbell-Thow yn Swyddog Gwella Ieithoedd Modern / Arweinydd Strategol dysgu ac addysgu iaith ac addysg trwy gyfrwng y Gaeleg yn yr Alban, ble gwelwyd yr un newidiadau â ni gyda'r Cwricwlwm yn 2014.

Yr Athro Rachel Hawkes yw Cyd-gyfarwyddwr NCELP / Cyfarwyddwr Addysg ac Ymchwil Rhyngwladol y [Comberton Academy Trust](#). Mae wedi cynhyrchu toreth o adnoddau a gwaith ymchwil addysgegol i ieithoedd tramor modern yn y cynradd a'r uwchradd, ac mae'n brif siaradwraig yn aml mewn cynadleddau iaith ar hyd a lled y Deyrnas Unedig.

Roedd y ddwy ar banel Languageut MFL Question Time haf diwethaf.

<https://www.youtube.com/watch?v=fRi5GGTdKLE>

CYRSIAU CBAC: Crynodeb o'r cynnwys.

Fel y cytunwyd yn ein cyfarfod rhwydwaith diwethaf, rydym wedi casglu ynghyd rhywfaint o nodiadau i gyfleu'r prif bwyntiau a wnaed yn ystod y cyrsiau CBAC a gyflwynwyd yn y gwanwyn a'r hydref (ailadrodd sesiynau'r gwanwyn).

Gellir gweld ein crynodeb a'r deunyddiau CBAC a rannwyd ar Hwb ITM GwE, neu drwy glicio'r ddolen isod.

<https://drive.google.com/file/d/1WFujQreJIN848x37ChNAM5tE8fiR4sX5/view?usp=sharing>



Canolfan Cefnogaeth GwE: Adnoddau

Beth am fwrw golwg ar y diweddariadau a'r holl wybodaeth am gymorth ac adnoddau Dyfodol Byd-eang GwE.

Mae'r dudalen ar Ganolfan Cefnogaeth GwE> Adnoddau GwE> Pynciau Allgraidd

Neu cliciwch yma

Saesneg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/?lang=en>

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/>.

DWEUD EICH DWEUD A RHANNU ARFERION DA



Datblygu Amlieithrwydd:

Rhannodd **Ysgol Uwchradd Prestatyn** y gwaith ar amlieithrwydd yn yr ysgol drwy Adobe Spark. Dolen ar y ppt ac yma:

<https://drive.google.com/file/d/1WFujQreJIN848x37ChNAM5tE8fR4sX5/view?usp=sharing>

Ceir llawer o syniadau am amlieithrwydd ar dudalen ITM Rhwydwaith Cefnogi GwE.

Oes gennych chi syniadau eraill yr hoffech i ni eu datblygu, neu hoffech chi rannu rhywbeth?

Cysylltwch â'r tîm!

EIN PARTNERIAID

Mentora ITM/ MFL Mentoring

Gellir gweld yr holl adnoddau bellach ar eu gwefan newydd sbon. Rhagor i ddod yn fuan. Cofiwch amdanyn nhw!

<https://cymraeg.mflmentoring.co.uk/>




Ystod	Disgrifiad
CA3	4 modiwl dysgu ar-lein, ar wahân, gydag unedau rhyngweithiol yn canolbwyntio ar 'ddysgu hanfodol' Cwricwlwm i Gymru.
CA4	33 cwis fideo dysgu ar-lein, ar wahân, a gyflwynir trwy MS 'sways', gan gynnwys gweithgareddau dysgu wedi'u sgaffaldio a chwisiau fideo rhyngweithiol yn yr iaith darged.
CA3/4	1 Ffeithlun am fanteision astudio ieithoedd, i gefnogi athrawon i annog disgyblion i astudio ieithoedd ar lefel TGAU a Safon Uwch.
CA3-5	18 poster i'w defnyddio fel sbardun i weithgareddau siarad/cyfieithu.













Diweddariad gan Routes Cymru: Tachwedd 2021

Sesiynau gan Lysgenhadon Iaith Llwybrau at Ieithoedd Cymru –

Rydym wedi hyfforddi ein Llysgenhadon Iaith o Brifysgolion Caerdydd, Bangor, Caerdydd Metropolitan, Abertawe ac Aberystwyth ac maent yn barod i gynnal sesiynau ar gyfer ysgolion

	<p>uwchradd a chynradd yng Nghymru. Os hoffech wneud cais ar gyfer sesiwn yna ewch i'n safle we i gofrestru.</p> <p>Cystadleuaeth Sillafu 'Spelling Bee' – Rydym yn bwriadu cynnal y gystadleuaeth eleni fel un ar lefel ysgol yn unig, gyda seremoni wobrwyo genedlaethol rithwir yn cael ei chynnal ym mis Gorffennaf 2022. Os hoffech gofrestru eich ysgol ar gyfer y gystadleuaeth yna ewch i'r tudalen ddigwyddiadau 'Spelling Bee' ar ein gwefan. Wedi cofrestru ewch i wefan y gystadleuaeth i lawrlwytho'r Pecyn Athrawon a'r rhestr eirfa ar gyfer bob iaith. Mae'r digwyddiad hwn ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru.</p> <p>Cynllun Llysgenhadon Iaith mewn Ysgolion (PLA) – Mae gennym gynlluniau cyffrous ar gyfer y cynllun Llysgenhadon iaith mewn Ysgolion Uwchradd (PLA) eleni a byddwn yn rhannu'r rhain â chi maes o law. Gobeithiwn drefnu elfen fyw i'r hyfforddiant gydag adnoddau wedi'u recordio o flaen llaw yn cael eu rhannu â chi er mwyn eich cynorthwyo i gynnal y cynllun yn eich ysgol. Gobeithiwn lansio'r cynllun cyn gwyliau'r Nadolig gyda'r sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnal yn gynnar yn nhymor y Gwanwyn 2022.</p> <p>Dosbarthiadau Meistr UG/Uwch – Fel yr arfer, byddwn yn trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer myfyrwyr UG/Uwch ar ffilmiau, nofelau a ffilmiau'r manylebau CBAC mewn Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg. Bydd ein cyfres o Ddosbarthiadau Meistr yn amrywio o rai byw a rhai wedi'u recordio o flaen llaw a byddwn yn cyhoeddi'r sesiynau cyn gwyliau'r Nadolig. Cadwch olwg ar ein tudalen ddigwyddiadau er mwyn cofrestru ar gyfer y sesiynau hyn.</p> <p>Er mwyn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf, dilynwch ni ar Twitter (@RoutesCymru) neu Facebook (routescymru) a chofiwch ymweld â'n tudalen ddigwyddiadau yn rheolaidd er mwyn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf.</p> <p>Os hoffech gymorth pellach i'r hyn a nodir uchod, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i: info@routesintolanguagescymru.co.uk</p>
	<p>Amgaaef Gylchlythyr Diweddaraf Ysgolion Cymru Tsieina</p> <p>https://mailchi.mp/602d1cd388de/waleschinaschools-autumn21-cymraeg.</p> <p>Gallwch ddarllen y newyddion diweddaraf am Tsieina yn ogystal â'r cyfleoedd sydd ar gael i'ch disgyblion ac i chithau!</p>

	<p>Os oes gennych gwestiynau neu ddiddordeb mewn cyflwyno Tsieinëeg yn eich ysgol, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i ucelev@caerdydd.ac.uk. I gael rhagor o wybodaeth am Brosiect Ysgolion Cymru Tsieina, gallwch hefyd ymweld â'r dudalen hon.</p>
 <p>INSTITUT FRANÇAIS ROYAUME-UNI</p>	<p>Diweddariad gan Institut français: Tachwedd 2021</p> <p>Diwrnod Rhyngwladol Athrawon Ffrangeg</p> <p>Bob blwyddyn, mae'r Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Athrawon Ffrangeg yn dathlu athrawon Ffrangeg ledled y blaned. Eleni, bydd yr Institut français yn y DU yn cynnig dwy fenter i athrawon Ffrangeg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhadledd a gynhaliwyd yn yr Institut français ddydd Gwener 26 Tachwedd o dan y teitl "Dod ag iaith a diwylliant Ffrangeg ynghyd" a fydd yn anelu at roi offer i athrawon cynradd ac uwchradd i helpu i fynegi iaith a diwylliant. Dilynir y gynhadledd gan goctels. Gall athrawon gofrestru yma. • Cystadleuaeth sy'n agored i holl athrawon Ffrangeg yn y DU. Gall athrawon gofrestru yma i gymryd rhan a cheisio ennill cynigion DPP ac adnoddau addysgu. <p>Lansio Joutes Oratoires</p> <p>Mae'r Joutes Oratoires Lycéennes yn gystadleuaeth ddadlau Ffrangeg sy'n agored i bob myfyriwr Chweched Dosbarth yng Nghymru a Lloegr. Ar ôl misoedd o ragbrofion rhanbarthol dwys yn dod a 120 o fyfyrwyr mewn 6 rhanbarth ynghyd, mae'r timau gorau yn y wlad yn cwrdd ar gyfer rownd derfynol o ddadleuon i ennill Cwpan Cenedlaethol mawreddog La Francophonie. Gall athrawon ac ysgolion sydd â diddordeb i gymryd rhan gysylltu â'n tîm education@institut-francais.org.uk</p> <p>Lansio Cystadleuaeth Fideo Pop Ffrengig</p> <p>Mae'r Institut français du Royaume-Uni, gyda chefnogaeth Francophonie UK, yn adnewyddu ei gystadleuaeth fideo caneuon Ffrengig ar gyfer pob myfyriwr cynradd ac uwchradd yn system ysgolion y DU, gan gynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, ac Ynysoedd y Sianel. Gall athrawon ac ysgolion sydd â diddordeb mewn cymryd rhan gysylltu â'n tîm education@institut-francais.org.uk</p>

	<p>Hyfforddiant athrawon DELF-DALF</p> <p>Gall ysgolion ac athrawon sy'n barod i gynnig arholiadau a diplomâu DELF i'w myfyrwyr gael ardystiad trwy sesiwn hyfforddi athrawon. Bydd yr hyfforddiant nesaf ar gael ym mis Rhagfyr a mis Ionawr.</p> <p>I gael rhagor o wybodaeth, gwahoddir athrawon ac ysgolion i gysylltu â ni education@institut-francais.org.uk</p>
	<p>Llwybrau at leithoedd Cymru : http://routesintolanguagescymru.co.uk/</p>
	<p>Institut français https://ifprofs.org/uk</p>
	<p>Goethe Institute: https://www.goethe.de/ins/gb/en/new.html</p>
	<p>Consejería Española: https://www.educacionyfp.gob.es/reinounido/en_GB/oficina_sycentros.html</p>
	<p>Confucius Institute: https://www.bangor.ac.uk/confucius-institute/</p>
	<p>British Council: https://wales.britishcouncil.org/en</p>
	<p>Mentora ITM/ Mentoring MFL: https://cymraeg.mflmentoring.co.uk/</p>
A HEFYD	
	<p>Linguascope: https://www.linguascope.com/</p>
	<p>Association for Language learning: https://www.all-languages.org.uk/</p>
CYSYLLTWCH Â NI	
<p>Tîm Dyfodol Byd-eang GwE: Arweinydd Dyfodol Byd-eang GwE: Stephanie Ellis-Williams stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru Arweinydd Hwb Wrecsam/Sir y Fflint: Paul Conn (Ysgol Alun, Yr Wyddgrug) Paul.conn@alun.flintshire.sch.uk Arweinydd Hwb Conwy/Sir Ddinbych: Viviane Vick (Ysgol Uwchradd Prestatyn)</p>	

vwick@prestatynhigh.co.uk

Arweinydd Hwb Gwynedd/Ynys Môn: Emma Green (Ysgol Dyffryn Ogwen - Bethesda):
green54@hwbcymru.net

Bwletin wythnosol GwE <https://www.gwegogledd.cymru/newyddion/bwletin/?lang=en>

Twitter GwE: @GwEGogleddCymru